## Dillad swyddogol Prifysgol Bangor

Peidiwch ag anghofio y gallwch chi brynu dillad swyddogol Prifysgol Bangor yn Siop Ffriddoedd a Barlows.

**Am brynu ar-lein? SIOPPRIFYSGOLBANGOR.CO.UK**

yoyo

Download on the App Store | GET IT ON Google Play

## Lawrlwythwch Yoyo am ddim

**Mae Yoyo, ein ap teyrngarwch, yn eich gwobrwyo gyda phob taliad!**

CAMPWS BYW / PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY / CAMPUS LIFE

Lawrlwythwch ap Campws Byw yn rhad ac am ddim i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl ddigwyddiadau!


Download on the App Store | GET IT ON Google Play

## O RAN BWYD A DIOD MAE GENNYM RYWBETH I BAWB!

Mae'r dewisiadau amrywiol yn cynnwys 'prynu a mynd', cinio ysgafn, byrbrydau a swper poeth. Mae ein lleoedd gwerthu yn cynnig gwerth am arian ac yn darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion dietegol

**Fegan | Llysieuol | Di-glwten | Halal**

FAIRTRADE | GOOD EGG AWARD | CERTIFIED SUSTAINABLE SEAFOOD MSC www.msc.org




**Peiriannau Gwerthu**
Lle bynnag y gwelwch hwn gallwch ddefnyddio ein peiriannau gwerthu sy'n cynnig byrbrydau, diodydd poeth ac oer.

**Pwyntiau ail-lenwi**
Lle bynnag y gwelwch hwn gallwch ail-lenwi'ch potel ddŵr yn rhad ac am ddim.

# LLEFYDD I FWYTA AC YFED YM MANGOR

BWYTA · YFED BANGOR EAT · DRINK

EATDRINKBANGOR

BAR UNO | TERAS | CEGIN | COPA | Barlows | teras | Academi

### 1 Caffi'r Teras

**Lawr gwaelod isaf**
**Prif Adeilad y Celfyddydau**

Angen rhywbeth i'w fwyta neu yfed rhwng darlithoedd? Cewch ddewis o'n bargeinion bwyd a paninis neu dewch i brofi'r amrywiaeth o brydau traddodiadol a rhyngwladol yn ein cownter poeth.

**Dydd Llun - Dydd Gwener | 8.30am – 6.30pm**

### 2 Lolfa'r Teras

**Lawr gwaelod isaf**
**Prif Adeilad y Celfyddydau**

Cyfeirir at Lolfa'r Teras fel 'perl cudd', ac mae'n cynnig profiad moethus am bris fforddiadwy. Gweinir brecwast, cinio a the prynhawn yno.

**Dydd Llun - Dydd Gwener | 8.30am – 6.30pm**

### 3 Caffi Cegin

**Lefel 2, Pontio**

Mwynhewch yr olygfa o'r ddinas ar ôl dewis o'n hamrywiaeth o fwydydd sy'n cynnwys bagels ffres, pitsas, tatws trwy'u crwyn a bwydydd poeth arbennig. Neu pam na wnewch chi sbwylio eich hun gyda'n waffls cartref blasus?

**Yn agored bob dydd - ewch i wefan Pontio i gael rhagor o fanylion. PONTIO.CO.UK**

### 4 Copa

**Lefel 5, Pontio**

Coffi, byrbrydau a llawer mwy.

**Dydd Llun - Dydd Gwener | 8.30am - 5.30pm (yn cau am 2pm ar ddydd Mercher)**

### 5 Barlows

**Caffi a Siop Barlows**

Y lle perffaith i brynu Starbucks neu gwrw a chael sgwrs gyda'ch ffrindiau. Awydd tamaid i'w fwyta? Pitsas a nachos i fynd gyda chi yw ein harbenigedd. Rydym hefyd yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau hanfodol.

**Ar agor bob dydd | 10.00am – 10.00pm**

### 6 Siop Ffriddoedd

Yn gwerthu bwydydd hanfodol ac amrywiaeth o nwyddau brand y brifysgol

**Dydd Llun i ddydd Gwener | 8.30am - 10.00pm**
**Penwythnosau | 9.00am - 10.00pm**

### 7 Canolfan Brailsford

Canolfan Brailsford yw un o brif gyfleusterau chwaraeon y brifysgol. Wedi ei leoli ar bentref myfyrwyr ffriddoedd, mae'r ganolfan yn cynnwys sawl neuadd chwaraeon, campfa dau lawr, ystafell codi pwysau/cryfder a chyflyru Olympaidd, wal ddringo, stiwdio sbin a dôm chwaraeon aml bwrpas.

**Dydd Llun - Dydd Gwener | 7.00am - 10.00pm**
**Dydd Sadwrn - Dydd Sul | 8.30am - 8.00pm**

### 8 Academi

Academi yw clwb nos swyddogol myfyrwyr y Brifysgol. Mae'n cynnal amrywiaeth o wahanol nosweithiau ac yn gweithio law yn llaw â'r myfyrwyr i gynnig lle diogel y gall pawb ei fwynhau. Peidiwch â cholli "Caws" ar nos Lun, noson swyddogol yr UA ar nos Fercher ac ar nos Sadwrn rydym yn cynnal yn noson myfyriwr poblogaidd "SOS".

### 9 Bar Uno

Y bar perffaith i fyfyrwyr! Mae'n gweini bwyd a diod sy'n rhoi gwerth am arian drwy gydol y dydd.

Gallwch wylio digwyddiadau chwaraeon byw a pheidiwch â cholli ein noson carioci enwog a gynhelir bob dydd Iau

**Yn agored bob dydd o 11.00am tan hwyr**

sky sports | BT Sport